

Cwpan y Byd: Chwarae teg?

Defnyddio Cwpan y Byd i
archwilio anghydraddoldeb



OXFAM

Sesiwn Fathemateg

Cyfartal neu anghyfartal?



OXFAM

Tebygolrwydd

Cywir neu anghywir?


1. Mae'n annhebygol y bydd Rwsia'n ennill Cwpan y Byd.
2. Mae gan Loegr siawns o $1/32$ o ennill Cwpan y Byd.
3. Mae gan dîm o Affrica yr un siawns o ennill Cwpan y Byd â thîm o Ewrop.

A oes gan bob tîm yr un siawns o ennill?





Mae 32 o wledydd yn cymryd rhan yng Nghwpan y Byd



OXFAM

Ffracsiynau tebygolrwydd

Beth yw'r tebygolrwydd y bydd:

1. Lloegr yn ennill Cwpan y Byd?
2. Rwsia'n ennill Cwpan y Byd?
3. Tîm o Grŵp A yn ennill Cwpan y Byd?
4. Lloegr yn ennill o fewn ei grŵp?
5. Gwlad sydd â'r lliw coch yn ei baner yn ennill Cwpan y Byd?




Safleoedd FIFA

Group A	Group B	Group C	Group D	Group E	Group F	Group G	Group H
Russia  66	Portugal  4	France  7	Argentina  5	Brazil  2	Germany  1	Belgium  3	Poland  10
Saudi Arabia  67	Spain  8	Australia  40	Iceland  22	Switzerland  6	Mexico  15	Panama  55	Senegal  28
Egypt  46	Morocco  42	Peru  11	Croatia  18	Costa Rica  25	Sweden  23	Tunisia  14	Colombia  16
Uruguay  17	IR Iran  36	Denmark  12	Nigeria  47	Serbia  35	South Korea  61	England  13	Japan  60



Datganiadau tebygolrwydd



Mae yn fwy/llai tebygol o ennill Cwpan y Byd na oherwydd

Mae tîm o Grŵp.... yn fwy/llai tebygol o ennill Cwpan y Byd na tîm o Grŵp oherwydd

Mae tîm o Ewrop yn fwy/llai tebygol o ennill Cwpan y Byd na tîm o Affrica oherwydd.....





Pam nad yw'n gyfartal?

- Pam y mae gan rai timau fwy o siawns o ennill?
- Pam y mae gan dimau o rai cyfandiroedd fwy o siawns o ennill?
- A oes rhesymau sy'n gysylltiedig â phêl-droed?
- A oes rhesymau nad ydynt yn gysylltiedig â phêl-droed?



Rhesymau pam y mae rhai timau yn fwy/llai
tebygol o ennill Cwpan y Byd ...



I ba raddau y mae hyn yn gysylltiedig â
phethau *y tu allan* i'r byd pêl-droed ei hun?
A yw hyn yn deg?



OXFAM

Incwm gwledydd

Mae Banc y Byd yn dosbarthu pob gwlad yn un o'r canlynol:

- gwlad incwm **isel**
- gwlad incwm **canolig-is**
- gwlad incwm **canolig-uwch**
- gwlad incwm **uchel**




Ym mha grŵp y mae'r gwledydd hyn, yn eich barn chi?



Rwsia

Canolig-uwch



Lloegr

Uchel



Senegal

Isel



Yr Aifft

Canolig-is



OXFAM



11,970	3,410	2,880	950
54,230	42,370	2,450	5,310
42,610	38,720	12,140	27,600
8,840	43,940	5,950	27,580
6,310	56,760	12,680	54,770
10,840	5,470	19,870	82,090
12,130	38,000	9,720	3,690
56,990	9,040	21,720	15,230



OXFAM



Anghydraddoldeb

- A oes gwahaniaeth mawr rhwng incwm y gwledydd?
- Gelwir y gwahaniaeth hwn yn **anghydraddoldeb incwm**.
- Ystyr anghydraddoldeb yw'r gwahaniaeth o ran adnoddau neu gyfleoedd i un grŵp o bobl yn erbyn un arall.




Incwm y pen

The world by income

Low (\$1,045 or less) ●
 Lower middle (\$1,046–\$4,125) ●
 Upper middle (\$4,126–\$12,745) ●
 High (\$12,746 or more) ●
 No data ○

Classified according to
 World Bank estimates of
 2013 GNI per capita



©SD 41914 NOVEMBER 2014



OXFAM



Pam?

Ystyriwch sut y gallai cael incwm ychwanegol effeithio ar dimau pêldroed:

- Yn uniongyrchol – er enghraifft, trwy ddarparu gwell adnoddau hyfforddi.
- Ac yn anuniongyrchol – er enghraifft, trwy well ofal iechyd ac addysg i'r plant.



Datganiadau a chyffredinoli

Mae
gwledydd
cyfoethog
yn ...

Po fwyaf o
arian sydd
gan wlad ...

Mae
anghydraddoldeb
incwm yng
Nghwpan y Byd
yn ...

Mae'r rhan
fwyaf ...

Mae gwledydd
Ewropeaidd ...



A yw hyn yn deg?

Os oes gan wlad incwm uchel fwy o arian i'w fuddsoddi mewn pêldroed, beth arall fyddai ganddi fwy o arian i'w fuddsoddi ynddo?

Dewiswch dîm i'w gefnogi yn y twrnaint. A fyddwch yn dewis gwlad incwm uchel, canolig neu isel? Pam?

A yw pêldroed yn deg?

A fyddai'n well gennych gael eich magu mewn gwlad incwm uchel, canolig neu isel? Pam?

Os oes gan wlad incwm isel lai o arian i'w fuddsoddi mewn pêldroed, beth arall fyddai ganddi lai o arian i fuddsoddi ynddo?



Anghydraddoldeb rhwng gwledydd

Mae anghydraddoldeb yn bodoli rhwng gwledydd yn y byd.

Golyga hyn nad yw pethau'n cael eu rhannu'n deg rhwng gwledydd.

Er enghraifft, mae rhai gwledydd yn gyfoethog tra bod gwledydd eraill yn dlawd iawn.



Anghydraddoldeb o fewn gwledydd

Mae anghydraddoldeb hefyd yn bodoli o fewn gwledydd.

Golyga hyn nad yw pethau'n cael eu rhannu'n deg o fewn yr un wlad.

Er enghraifft, efallai y bydd gan rai pobl fwy o arian nag eraill.



The UK's
5 RICHEST
families own
more wealth than
12.6 MILLION
of us put together



OXFAM

Sgorio anghydraddoldeb o fewn gwledydd

Gellir rhoi sgôr i wledydd (y mynegai GINI) i ddangos pa mor gyfartal neu anghyfartal ydynt.

0 ✓

Mae sgôr o 0 yn golygu bod y wlad yn gwbl gyfartal, bod gan bawb yn y wlad honno yr un faint o arian.

Byddai hynny'n edrych yn debyg i hyn:




Mewn gwirionedd, nid oes yr un wlad yn edrych fel hyn.



Sgorio anghydraddoldeb o fewn gwledydd

Mae sgôr o 100 yn golygu bod y wlad yn gwbl anghyfartal.
Byddai hyn yn edrych yn debyg i hyn:

100




Mewn gwirionedd, nid oes yr un wlad yn edrych fel hyn chwaith,
diolch byth .



OXFAM

Plotio sgorau tegwch

Plotiwch y pedair gwlad ar y raddfa isod.



Brasil
51



Gwlad yr
lâ
26



Rwsia
38



Lloegr
33